



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Gynradd Coedffranc

**Heol Stanley
Sgiwen
Castell-nedd
SA10 6LP**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Coedffranc

Enw'r darparwr	Ysgol Gynradd Coedffranc
Awdurdod lleol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Iaith y darparwr	Saesneg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	*
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	418
Disgyblion o oed ysgol statudol	295
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	70
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%)	30.7%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%)	21.7%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	*
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	4.4%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/11/2016
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	04/02/2014
Dyddiad dechrau'r arolygiad	24/10/2022

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Coedffranc
Hydref 2022

- a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

Trosolwg

Wrth ystyried gwelliannau aruthrol yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf, ni ddylid tanamcangyfrif y dylanwad mae arweinyddiaeth wedi'i gael. Mae'r pennaeth wedi creu ethos tîm pwerus ymhlith staff, sy'n cael ei adeiladu ar sail perthnasoedd cadarnhaol, ymddiriedaeth a chydweithio. Mae'r ymagwedd hon yn amlygu'r gorau oll ymhlith staff yr ysgol trwy eu hannog a'u galluogi i wneud y defnydd gorau posibl o'u medrau a'u profiad, er enghraifft trwy ddarparu cymorth rhagorol ar gyfer teuluoedd yn y gymuned leol. Mae arweinwyr yr ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda, gan gynnwys diwygio'r cwricwlwm ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae gan arweinwyr ar draws yr ysgol, gan gynnwys llywodraethwyr yr ysgol, ddisgwyliadau cyson uchel ohonyn nhw eu hunain a staff, a dyheadau uchel ar gyfer pob un o'r disgyblion.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau eu hamser yn Ysgol Gynradd Coedffranc. Maent yn datblygu lefelau uchel o barch am yr oedolion sy'n gofalu amdanynt, ac ymddiriedaeth y bydd staff bob amser yn gweithredu er eu lles pennaf. Maent yn ymddwyn yn dda, yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag ystod amrywiol y profiadau a'r cyfleoedd dysgu sy'n cael eu darparu gan yr ysgol, ac yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn i gymuned yr ysgol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai yng Nghanolfan Phoenix, yn gwneud cynnydd da, ar y cyfan. Maent yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddarllen, ac yn siarad â brwdfrydedd am eu gwaith ar draws y cwricwlwm, yn enwedig cyfleoedd i fod yn greadigol ac yn gorfforol egnïol. Maent yn datblygu gwybodaeth a medrau mathemategol da ond nid ydynt yn defnyddio'r medrau hyn yn ddigon aml neu gystal ag y gallent yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. At ei gilydd, mae agweddau disgyblion at ddysgu yn dda. Maent yn awyddus i wneud yn dda ac ymgymryd â heriau newydd. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae disgyblion yn dechrau datblygu medrau defnyddiol sy'n eu helpu i fyfyrio ar eu dysgu a meddwl am sut gallent wella'u gwaith. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cael digon o ddylanwad dros eu dysgu eu hunain neu mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

Mae staff yn adnabod y disgyblion, eu hanghenion a'u diddordebau yn dda iawn. Yn yr ysgol brif ffrwd a Chanolfan Arbenigol Phoenix, maent yn darparu lefelau uchel o ofal, cymorth ac arweiniad sy'n cynorthwyo disgyblion i fwynhau'r ysgol a chymryd rhan yn effeithiol mewn dysgu. Mae staff yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n gweddu i ysbryd a dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn amlwg mewn gwaith i archwilio cysyniadau fel 'Perthyn' sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, gan ddefnyddio eu hardal a'i nodweddion yn symbyliad ar gyfer llawer o'u dysgu. Mae athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau, fel technegau holi effeithiol, i ymestyn y dysgu. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn darparu dilyniannau o wersi sy'n cynorthwyo disgyblion i feithrin eu medrau yn raddol. Fodd bynnag, mae cynllunio athrawon ar gyfer dilyniant ar draws yr ysgol yn anghyson, ar y cyfan. Ar adegau, mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio'n fanwl gywir ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion.

Argymhellion

- A1 Datblygu dealltwriaeth ar y cyd o ddisgwyliadau staff ymhellach ar gyfer dilyniant disgyblion trwy'r ysgol, a gwella'r defnydd o strategaethau asesu i gefnogi cynnydd disgyblion yn fwy effeithiol
- A2 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm ar y lefel y gallant
- A3 Ymestyn dylanwad disgyblion dros eu dysgu a bywyd a gwaith yr ysgol

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â'i strategaeth deuluol a chymunedol a datblygu ei harweinyddiaeth, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Prif werthusiad

Dysgu

Pan fyddant yn ymuno â'r ysgol yn y dosbarth meithrin, mae gan ryw hanner y disgyblion fedrau personol, cymdeithasol a chyfathrebu sy'n debyg i'r lefel a ddisgwylir am eu hoedran. Mae llawer o'r disgyblion ifanc iawn hyn wedi mynychu darpariaeth deuluol yr ysgol cyn ymuno â'r dosbarth meithrin. Mae hyn yn datblygu eu medrau dysgu cynnar ac yn cefnogi eu lles yn effeithiol.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd mwy difreintiedig a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), mewn dosbarthiadau ar draws yr ysgol ac yng Nghanolfan Phoenix, yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn. Nid yw ychydig iawn o ddisgyblion mwy abl yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent gan nad yw eu gweithgareddau bob amser yn ddigon heriol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn effeithiol; er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth am strwythurau brawddeg i ateb ystod o gwestiynau yn Gymraeg yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwranddo'n astud ar oedolion ac ar eu cyfoedion, ac yn ymateb yn briodol, gan drin pobl eraill â chwarteisi a pharch. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau llafaredd, ac yn siarad yn hyderus ag oedolion. Maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn effeithiol ar draws ystod eang o gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn astudio eu hardal ac yn trafod yr adeiladau mwyaf pwysig a lleiaf pwysig, a'u rhoi yn eu trefn. Maent yn rhoi rhesymau dilys i gyfiawnhau eu hatebion.

Mae disgyblion hyn yn datblygu geirfa eang. Maent yn trafod iaith gynryfiadol ac yn ei defnyddio i esbonio sut gallai ffoaduriaid fod yn teimlo. Maent yn herio safbwyntiau cyfoedion yn ystyriol os ydynt yn anghytuno, ac yn addasu eu hiaith i weddu i'r gynulleidfa. Mae bron pob un o'r disgyblion yn awyddus i gymryd rhan mewn deialog syml yn Gymraeg, ac mae ychydig ohonynt yn rhoi atebion estynedig i gwestiynau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth derbyn yn dechrau adnabod llythrennau a seiniau llythrennau, ac yn dechrau cyfuno llythrennau i ffurfio geiriau syml. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn rhugl gyda goslef addas. Defnyddiant ystod o strategaethau i ddadgodio geiriau a chasglu ystyr o destunau cymhleth. Mae mwyafrif y disgyblion yn darllen ac ynganu geiriau Cymraeg yn hyderus. Yn y grwpiau oedran hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig am ddarllen, ac yn darllen yn bwrpasol ar draws amrywiaeth o genres.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da â'u medrau ysgrifennu. Gydag arweiniad, mae llawer o ddisgyblion y dosbarth derbyn yn ffurfio llythrennau â chywirdeb cynyddol. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, maent yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n dda ar draws ystod o gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn creu poster i roi gwybod i'r cyhoedd bod y 'Stick Man' ar goll, a hyrwyddo ei ddychweliad diogel. Erbyn Blwyddyn 4, maent yn rhoi brawddegau yn eu trefn ac yn defnyddio amrywiaeth eang o atalnodi yn gywir. Maent yn sillafu geiriau anghyfarwydd yn gywir ac yn defnyddio iaith ddisgrifiadol yn ofalus i ennyn diddordeb

y darllenydd. Mae disgyblion hŷn yn sillafu amrywiaeth o eiriau cymhleth yn gywir ac yn defnyddio geiriaduron yn hyfedr i wirio'u sillafu. Mae disgyblion ym Blwyddyn 4 a Blwyddyn 5 yn ysgrifennu'n dda i greu disgrifiadau personol yn Gymraeg gan ddefnyddio amrywiaeth o eirfa a phatrymau brawddeg estynedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol mewn datblygu eu medrau mathemategol. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth derbyn yn creu patrymau ailadroddus gan ddefnyddio amrywiaeth o eitemau a chyfrif gwrthrychau yn hyderus. Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o algebra tra'n datrys hafaliadau syml. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau datblygu eu medrau rhesymu mathemategol yn briodol mewn gwersi mathemateg. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm i'r lefel y gallent eu cymhwyso.

Mae medrau digidol disgyblion hŷn yn datblygu'n dda, ac maent yn defnyddio technoleg yn briodol ar draws ystod eang o weithgareddau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn cydweithio i greu cyflwyniad amlgyfrwng am eu hoff ganwr o Gymru, gan ddefnyddio effeithiau pwrpasol a dolenni at fideos. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio fformiwlâu mewn taenlenni yn hyderus i gyfrifo cost rhestr siopa, ac yn rhagfynegi'n gywir beth yw effaith newid fformiwla ar y cyfanswm mewn cell gysylltiedig. Mae disgyblion iau yn defnyddio eu medrau digidol yn briodol i gefnogi eu dysgu mewn ychydig o achosion gwerth chweil.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad corfforol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, ac yn ennill dealltwriaeth gadarn o effeithiau gweithgarwch corfforol ar y corff. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau artistig a chreadigol yn dda trwy weithgareddau pwrpasol a difyr, fel gwersi cerddoriaeth, drama a chelf.

Lles ac agweddau at ddysgu

At ei gilydd, mae disgyblion yn Ysgol Gynradd Coedffranc yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn derbyn gofal. Maent yn mwynhau'r amgylchedd anogol a chefnogol a'r ymdeimlad o berthyn i gymuned yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn elwa ar y perthnasoedd gweithio cryf gyda staff. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn ddigalon. Maent yn hyderus y bydd oedolion yn gwrando arnynt ac yn eu cynorthwyo i fynd i'r afael ag unrhyw broblem sydd ganddynt. Mae'r ymddiriedaeth hon yn ategu'r perthnasoedd gofalgar yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais a gofalgar tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac wrth iddynt symud o gwmpas yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu â'r profiadau dysgu yn gadarnhaol. Maent yn gweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion mewn parau neu grwpiau i gefnogi dysgu ei gilydd. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn deall sut i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, er enghraifft mae ychydig o ddisgyblion wedi datblygu siarteri sy'n cynorthwyo disgyblion i fyfyrion ar b'un a ydynt wedi bod yn ddysgwyr effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau datblygu agweddau ac ymddygiadau sy'n eu helpu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Fodd bynnag, gan fod gormod o amrywioldeb yn nisgwyladau athrawon a'u hymagweddau at addysgu, nid

yw disgyblion bob amser yn datblygu medrau dysgu'n annibynnol, fel gwerthuso a myfyrio ar eu dysgu eu hunain, cystal ag y gallent.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwerthfawrogi a pharchu barnau a chyfraniadau pobl eraill, er enghraifft pan fydd disgyblion Blwyddyn 5 yn trafod a blaenoriaethu anghenion y gymuned. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o'u hawliau fel plant a hawliau plant ledled y byd. Maent yn meithrin ymwybyddiaeth gref o faterion yn ymwneud â thegwch a chyfiawnder. Mae grwpiau llais y disgybl yn arwain gwasanaethau ac yn canolbwyntio ar faterion pwysig fel amrywiaeth a chynhwysiant yn yr ysgol. Mae hyn yn cefnogi datblygiad disgyblion fel dinasyddion moesegol a gwybodus.

Mae disgyblion sy'n ymgymryd â rolau arwain yn gwneud hynny â brwdfrydedd a diben. Er enghraifft, mae swyddogion Blwyddyn 6 yn falch o gynorthwyo disgyblion iau trwy diwtora cyfoedion. Mae disgyblion yn manteisio'n dda ar gyfleoedd i ddefnyddio'u llais. Maent wedi cyfrannu tuag at ymestyn eu hamgylchedd dysgu, er enghraifft trwy greu siarteri dosbarth, dylunio logo'r ysgol a gwella'r amgylchedd chwarae yn yr awyr agored. Mae cyfranogiad mewn grwpiau fel y Cyngor Ysgol a'r Criw Cymraeg yn hyrwyddo hunan-barch yn briodol. Fodd bynnag, mae dylanwad disgyblion mewn arwain eu dysgu eu hunain yn llai datblygedig.

Dros gyfnod, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth addas o sut i weithredu'n gynaliadwy, er enghraifft trwy eu gwaith i ddysgu p'un a yw plastig yn 'ffantastig neu'n ddrastig'. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach. Maent yn cadw eu cyrff yn heini trwy wneud ymarfer corff rheolaidd mewn gwarsi a chlybiau gweithgarwch chwaraeon ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn ymwybodol o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd, ac yn deall disgwyliadau'r ysgol.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Ar draws yr ysgol, mae staff yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf gyda disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u hymddygiad ac yn eu hannog i gael disgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain fel dysgwyr.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau i ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Maent yn defnyddio holi yn effeithiol ac yn addasu eu haddysgu yn fedrus o bryd i'w gilydd i fynd i'r afael â chamdybiaethau a chefnogi dealltwriaeth disgyblion. Maent yn creu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion weithio gyda'i gilydd ac yn dechrau cynorthwyo disgyblion i fyfyrio'n llwyddiannus ar eu dysgu.

Mae ychydig o athrawon yn cynllunio dilyniannau o wersi sy'n meithrin medrau a dealltwriaeth disgyblion yn raddol. Mae disgyblion iau, er enghraifft, yn drafftio llythyrau perswadiol at y cyngor, gan ddilyn cyfres o weithgareddau yn gysylltiedig â meddwl am eu hardal, ac mae disgyblion hyn yn gwella'u dadansoddiad o farddoniaeth, gan adeiladu ar gyfleoedd i feddwl am dechnegau awduron. Mae athrawon yn gweithio i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o sut bethau dylai cynnydd disgyblion mewn medrau a dysgu fod ar draws y cwricwlwm wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cymharol gynnar o ran datblygu'r gwaith hwn, ac nid yw cynllunio ar gyfer datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn raddol dros ddilyniannau o wersi yn arferol ar hyn o bryd. Nid yw athrawon bob amser yn glir

am eu disgwyliadau o gynnydd disgyblion mewn gwersi a thros gyfnod. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i ddefnyddio asesu parhaus i gynllunio ar gyfer y camau nesaf mewn dysgu. Mae hefyd yn golygu bod disgyblion weithiau'n ansicr am ddiben eu gwaith a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i wneud cynnydd mewn gwahanol agweddau ar eu dysgu.

Caiff cynorthwyrwyr addysgu eu defnyddio'n effeithiol ar draws yr ysgol i gynorthwyo'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol a'r rhai yng Nghanolfan Phoenix, i wneud cynnydd da mewn llawer o agweddau ar eu dysgu. Yn benodol, mae'r ffyrdd arloesol y maent yn gynorthwyo athrawon ac arweinwyr i feithrin diwylliant cadarnhaol o ddarllen yn cyfrannu at gariad disgyblion at ddarllen yn yr ysgol ac yn y cartref.

Mae arweinwyr ac athrawon yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer cwricwlwm yr ysgol, ac yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i greu themâu ysgol gyfan sy'n darparu profiadau dysgu cyfoethog. Mae'r testun presennol, 'Perthyn', er enghraifft, yn galluogi disgyblion i rannu gwybodaeth briodol am eu bywydau gyda phobl eraill, a dysgu mwy am bobl a lleoedd yn eu hardal leol, yng Nghymru a'r byd. Mae disgyblion iau yn meddwl am ba leoedd yn eu cymuned sydd fwyaf a lleiaf pwysig iddynt, ac mae disgyblion hŷn yn defnyddio ystod o ffynonellau gwybodaeth i archwilio bywydau a theimladau cenhedlaeth 'Windrush'.

Mae athrawon yn dechrau addasu eu cynllunio i helpu disgyblion i wneud cysylltiadau yn eu dysgu a throsglwyddo agweddau ar eu gwybodaeth a'u medrau i feysydd eraill o'r cwricwlwm. Mae ffocws diweddar yr ysgol ar ddatblygu medrau llafaredd disgyblion yn effeithiol o ran datblygu eu hyder. Mae hyn, o'i gyfuno â ffocws ar feddwl beirniadol, yn galluogi llawer o ddisgyblion i siarad yn aeddfed erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn trafodaethau a dadleuon grŵp i gasglu safbwyntiau ar ddigwyddiad hanesyddol. Maent yn ffurfio barnau, yn cwestiynu safbwyntiau ei gilydd ac yn dod o hyd i ffyrdd diddorol o fynegi'r hyn y maent yn ei ddysgu. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion, yn gyffredinol, yn datblygu eu gwybodaeth am gysyniadau mathemategol yn systematig. Mae disgyblion yn y dosbarth derbyn i Flwyddyn 2 yn arbennig yn elwa ar gyfleoedd i archwilio rhifau mewn amrywiaeth o ffyrdd ymarferol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'n briodol er mwyn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol, creadigol a datrys problemau. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4 yn plannu hadau a blodau i greu cynefin ar gyfer gwenyn. Mae disgyblion yn mwynhau cyfleoedd i ddysgu am natur yn ystod sesiynau'r ysgol goedwig, ac yn cael cyfleoedd i ofalu am dir eu hysgol ac ardaloedd yn eu cymdogaeth, a'u gwella, fel y parc lleol, lle maent yn plannu blodau ac yn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw sbwriel yno. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw athrawon yn gwneud y gorau o gyfleoedd i ddatblygu dysgu yn yr amgylchedd awyr agored.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd dilys i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o hanes a diwylliant Cymru, a'r materion sy'n effeithio arnynt heddiw. Maent yn efelychu gwaith arlunwyr o Gymru, yn dathlu diwrnodau arbennig ac yn dysgu am sut mae pobl sy'n ymfudo i wledydd eraill yn mynd â thraddodiadau a cherddoriaeth Cymru gyda nhw. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn annog

disgyblion i ymarfer eu Cymraeg, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn gofyn ac yn ateb cwestiynau'n hyderus wrth sgwrsio ag ymwelwyr.

Mae staff yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth yn dda. O oedran cynnar, mae disgyblion yn meddwl am nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhyngddyn nhw eu hunain a phobl eraill. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, maent yn dysgu am hanes a phrofiadau cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, er enghraifft trwy storïau bywyd ffigurau dylanwadol fel Katherine Johnson. Mae disgyblion hŷn yn cyfweld â chynrychiolwyr o Achub y Plant fel rhan o'u gwaith ar hawliau. Maent yn dysgu am blant sy'n cael eu heffeithio gan wrthdaro, ac am wledydd lle na chaniateir i ferched fynd i'r ysgol.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn darparu lefelau uchel o ofal, cymorth ac arweiniad. Mae arweinwyr a staff yn gweithio'n galed i sefydlu perthnasoedd cryf â disgyblion a'u teuluoedd. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn ymateb i'w hanghenion cymdeithasol ac emosiynol yn sensitif.

Mae'r ffocws ysgol gyfan ar les yn creu amgylchedd dysgu diogel, anogol a chynhwysol. Mae'r rhan fwyaf o staff yn wybodus am sut i gynorthwyo disgyblion â'u hanghenion cymdeithasol ac emosiynol, ac mae ganddynt ymagwedd glir a chyson. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rheoli eu hemosiynau'n dda ac yn gwybod sut i ofyn am gymorth pan fydd ei angen arnynt.

Mae'r cydlynnydd ADY a staff o Ganolfan Phoenix yn darparu cymorth ac arweiniad arbenigol gwerthfawr i bob un o'r staff. Mae hyn yn eu galluogi i gynorthwyo dysgwyr yn llwyddiannus a rhannu arfer dda ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio prosesau asesu, adolygiadau tymhorol ac ymyriadau yn briodol i sicrhau bod y rhai sy'n cael cymorth ychwanegol yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn.

Mae'r ysgol wedi datblygu prosesau rhagorol ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd disgyblion yn yr ysgol, a'u cynorthwyo, a'r rhai nad yw eu plant wedi dechrau yn yr ysgol eto. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r gweithiwr cymorth i deuluoedd sy'n dra chymwys yn cynnig ystod eang o hyfforddiant gwerthfawr i rieni, ac mae'n hynod effeithiol yn ei rôl. Er enghraifft, mae rhieni a gofalwyr yn elwa ar sesiynau tyllino babanod, ac ar sesiynau dysgu trwy chwarae lle maent yn dysgu cynorthwyo eu plant â datblygu cariad at ddarllen o oedran cynnar. Caiff y ddarpariaeth hon ei chryfhau trwy gysylltiadau gwerth chweil ag asiantaethau allanol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r bartneriaeth weithio agos gydag ymwelwyr iechyd sy'n cynorthwyo teuluoedd ac yn amlygu'r cymorth a gynigir gan yr ysgol. Mae'r ymgysylltu cynnar hwn â rhieni yn effeithio'n gadarnhaol ar fedrau disgyblion wrth iddynt ddechrau'r ysgol, ac yn cryfhau lle'r ysgol yng nghanol y gymuned.

Caiff llawer o ddisgyblion gyfleoedd i fod yn rhan o grwpiau llais y disgybl, ac mae'r grwpiau hyn yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at waith yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion ar y cyngor ysgol wedi dylunio'r marciau newydd ar iard yr ysgol i wella gweithgarwch corfforol amser cinio. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae disgyblion yn cyfrannu syniadau pwrpasol wrth gynllunio cyd-destunau go iawn ar gyfer eu dysgu. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i gymryd

cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain neu ddylanwadu ar waith yr ysgol heb arweiniad gan oedolyn.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru a'u lle yn y byd ehangach. Mae disgyblion yn dysgu am ddirnodau Cymru a phobl enwog yn hanes Cymru. Maent yn cymharu eu profiadau nhw â phrofiadau plant o gwmpas y byd yn dda. Er enghraifft, mae ffocws ysgol gyfan ar 'Berthyn' yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu ymdeimlad o sut maen nhw'n perthyn yn yr ysgol, yn y gymuned leol ac fel dinasyddion byd-eang.

Caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i fyfrio a datblygu dealltwriaeth dda o werthoedd a chredoau pobl eraill trwy wersi ac fel rhan o'u haddoli ar y cyd. Mae disgyblion yn ymwybodol o hawliau'r plentyn ac yn datblygu synnwyr cryf o'r hyn sy'n dda ac yn ddrwg. Maent yn ymweld â lleoedd addoli lleol i ddysgu am Gristnogaeth a mathau eraill o ffydd. Mae hyn yn cyfrannu at ddatblygu eu dealltwriaeth dda o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn eu cymuned. Mae darpariaeth yr ysgol yn cynorthwyo disgyblion i fod yn fwy gwybodus yn foesegol trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian fel casgliadau ar gyfer y banc bwyd neu ddigwyddiadau Plant mewn Angen.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a thwrnameintiau chwaraeon, cystadlaethau fel cwis diogelwch ar y ffordd ac amrywiaeth o ddarpariaeth ar ôl yr ysgol. Yn ystod y diwrnod ysgol, maent yn mwynhau sesiynau addysg gorfforol, drama a cherddoriaeth, yn arbennig.

Mae'r ysgol yn gwahodd gwesteion ac ymwelwyr yn rheolaidd, sy'n rhannu cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn yn ystyriol ac yn sensitif, ac o ganlyniad, yn codi dyheadau disgyblion. Mae ymwelwyr, gan gynnwys y rhai o dîm rygbi Cymru, yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu gwerthoedd fel dyfalbarhad ac ymroddiad, ac mae'r Prif Weinidog yn rhoi mewnwelediadau i ddisgyblion i'r ffordd y caiff Cymru ei llywodraethu.

Mae prosesau i hyrwyddo cyfraddau cadarnhaol o ran presenoldeb disgyblion yn briodol. Mae trefniadau'r ysgol i ddiogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth hynod effeithiol y pennaeth wedi trawsnewid bywyd a gwaith yr ysgol. Mae ei arddull arweinyddiaeth alluogol yn hwyluso gwelliant parhaus effeithiol ac yn cefnogi datblygiad diwylliant tîm cryf. Mae'r pwyslais cyson ar ddatblygu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol ar draws y gymuned gyfan a'r gallu i gael y gorau gan bobl yn gryfder sylweddol arweinyddiaeth yn yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi datblygu a gweithredu gweledigaeth glir i ddiwallu anghenion disgyblion, teuluoedd a'r gymuned leol yn arbennig o dda. Mae hyn yn sicrhau bod staff yn gweithio gyda synnwyr o ddiben ar y cyd i hyrwyddo disgwyliadau uchel ar gyfer cynnydd a lles disgyblion, yn ogystal â sicrhau eu bod yn datblygu ymdeimlad o berthyn i'r ysgol a'r gymuned leol. Mae mentrau penodol, fel datblygu ymagwedd at ddysgu sy'n canolbwyntio ar y teulu, yn dangos y ffordd effeithiol y mae'r ysgol yn

rhoi ei gweledigaeth ar waith trwy arweinyddiaeth strategol effeithiol. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol i godi dyheadau disgyblion, er enghraifft trwy wahodd personoliaethau proffil uchel o fyd chwaraeon, gwyddoniaeth a gwleidyddiaeth Cymru i'r ysgol. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion nodi'r nodweddion y gallai fod angen iddynt eu datblygu i'w cynorthwyo i gyflawni eu nodau eu hunain mewn bywyd.

Mae trefniadau i ddosbarthu rolau, cyfrifoldebau a datblygu gallu arweinyddiaeth yn hynod effeithiol. Mae uwch arweinwyr yn elwa'n arbennig o dda ar brofiadau a medrau staff i wella darpariaeth, cynnydd a deilliannau ar gyfer disgyblion. Er enghraifft, mae arweinyddiaeth darpariaeth cymorth i deuluoedd yr ysgol gan ei swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn eithriadol o dda. Mae'r gwaith hwn yn eithriadol o fuddiol i fywydau disgyblion a theuluoedd yn yr ardal mewn llawer o ffyrdd, er enghraifft trwy gynorthwyo rhieni â chymorth cyn-ysgol a hwyluso ymgysylltu â rhwydwaith o wasanaethau cymorth hanfodol. At ei gilydd, mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda rhieni, er enghraifft trwy bartneriaeth gynhyrchiol â'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Mae staff yn cyfathrebu'n dda â rhieni i rannu gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol, ond mae trefniadau i rannu gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn llai datblygedig.

Mae arweinwyr dysgu adrannol yn sicrhau bod athrawon a chynorthwywyr addysgu ar draws yr ysgol yn cynnal ffocws ar wella ansawdd yr addysgu a phrofiadau dysgu. Mae cydlynedd ADY yr ysgol yn gweithio'n dda iawn gydag arweinydd Canolfan Phoenix arbenigol yr ysgol i sicrhau bod darpariaeth ADY yr ysgol yn gyson effeithiol ar gyfer disgyblion. Mae arweinydd y ganolfan yn dylanwadu ar welliant ysgol gyfan yn gadarnhaol, ac yn darparu dysgu proffesiynol i staff y ganolfan a'r brif ffrwd, er enghraifft cyflwyno parthau rheoleiddio. Mae'r hyfforddiant hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad pob un o'r disgyblion. Mae'r arweinyddiaeth gref hon yn sicrhau bod cynnydd tuag at ddiwygio ADY yn dda.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol eraill. Mae'r ysgol wedi dylunio a dechrau cyflwyno ei dehongliad lleol o'r Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n graff ar wella medrau llythrennedd a chyfathrebu disgyblion. Mae disgyblion a theuluoedd yn elwa ar ymrwymiad cryf yr ysgol i ddatblygu diwylliant o ddarllen o'r adeg y maent yn ymuno â'r ysgol hyd nes eu bod yn gadael. Mae hyn yn cynnwys cyfle i ddefnyddio llyfrau a chymryd rhan mewn sesiynau adrodd storïau ar gyfer teuluoedd cyn i ddisgyblion ddechrau yn yr ysgol, ymagwedd strwythuredig at ddatblygu medrau darllen, cyswllt rheolaidd â'r llyfrgell leol a sesiynau darllen ychwanegol ar gyfer disgyblion hyn y tu allan i'r diwrnod ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd a gwerth chweil i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae ymrwymiad yr ysgol i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais gymdeithasol yn treiddio trwy ei gwaith. Mae arweinwyr yn ymgysylltu'n bwrpasol ag ymchwil ac â lleoliadau addysgol o'r Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau i lywio penderfyniadau am ddarpariaeth, er enghraifft i ffurfio'r strategaeth cymorth i deuluoedd. Maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn dda i ariannu staff medrus i weithredu ymagwedd ysgol gyfan gynaliadwy at les, cefnogi datblygiad medrau disgyblion a darparu cyfle i elwa ar brofiadau.

Mae prosesau gwerthuso a gwella'r ysgol yn eang ac effeithiol. Mae arweinwyr yn nodi blaenoriaethau perthnasol ac yn cymryd camau addas i ysgogi gwelliannau dymunol. Mae staff yn adolygu cynnydd tuag at nodau gwella yn gyson. Mae'r hyder a'r gallu ymhlith staff yr ysgol i addasu cynlluniau yn reddfol i wella arfer ymhellach yn gryfder arbennig. Mae trefniadau i gefnogi dysgu proffesiynol yn rheolaidd ac yn effeithiol, ac yn cefnogi gwelliant yr ysgol yn dda. Er enghraifft, mae dysgu proffesiynol wedi cryfhau darpariaeth yr ysgol i ddatblygu darllen disgyblion, ac wedi sicrhau prosesau hynod effeithiol i gefnogi lles disgyblion. Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw dysgwyr yn ddiogel.

Mae llywodraethwyr yn eiriolwyr cryf dros yr ysgol. Maent yn darparu cymorth gwerthfawr pan fydd angen, er enghraifft pan roedd angen gwneud atgyweiriadau brys a helaeth i'r adeiladau. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu yn dda. Maent yn deall blaenoriaethau gwella'r ysgol a'r rhesymau y tu ôl iddynt. Maent yn cynorthwyo arweinwyr i weithredu a monitro gwaith gwella yn briodol, er enghraifft trwy gytuno i ddyrannu cyllid a thrwy ymweld â'r ysgol i weld datblygiadau'n uniongyrchol. Mae llywodraethwyr yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Mae arweinwyr yr ysgol yn rheoli cyllid yn ofalus ac yn dyrannu cyllid i gefnogi gwelliant yn briodol.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrandao arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddogfenniadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/12/2022